CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

CYFARFOD 29 ORFFENNAF 2025

1. Croeso gan y Cadeirydd

2. Yn bresennol: K Jones, Cadeirydd, N Morris, Is Gadeirydd, D Owen, H Jones.

Ymddiheuriadau: M Morris.

Mae Mr Flack wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r Cyngor. Clerc i gysylltu ag ef i rhoi cyfarwyddiadau iddo.

**3. BUDDIANNAU PERSONOL NEU RAGFARNOL**

Dim.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Mai 2024 - 2.3 – Llinellau ar y Cwrt Tenis – Derbynwyd ymddiheirad a chwestiwn wrth M Dixon. Clerc i ymateb a'r ateb iddo 1 cwrt.

Mai 2024 – 4.1 – Uned storio – Talwyd y Clerc yr anfoneb £3360.00. Cyflwynodd M Jukes yr uned storio neis iawn a'i rhoi yn y maes parcio. Roedd K Jones, H Jones a'r Clerc yn ei ddisgwyl. Trafodwyd yn ein cyfarfod mi fyddai fffitio rhan silffoedd yn yr uned storio. H Jones yn mynd i edrych am wahanol brysiau a phan fydd yn hapus ei bod wedi cael y ddel orau, i rhoi gwybod i'r Clerc.

Ebrill 25 5.3 Sebra yn y parc – Dywedodd Gareth wrth y Clerc maent yn mynd i wneud y gwaith yma yn yr wythnosau nesaf.

Ebrill 25 5.4 Paentio postiau gol - M Morris yn delio a'r mater.

Ebrill 25 6.1 Arwydd stryd a'r palmant wedi'u ddifrodi – Ebost wrth A B Jones yn dweud bod yr gweithgynhyrchydd wedi gwneud camgymeriad sbelian, felly roedd rhaid archebu arwydd arall. Unwaith mi ddaw bydd y gang yn dod i ddisodli'r arwydd ac atgyweirio' r palmant.

6.15 Mr Garside -Mi ddylai'r ffensio i'w wneud yn fuan. Clerc i Ebostio Angharad Williams, Cyfreithwr i ddweud bod y mater yma wedi i'w ddatrys ac iddi hi i ddanfon ei ffioedd hyd yn hyn.

6.1 Byrddau hysbysu – D Owen i gysylltu â Dai Thomas eto.

6.2 Toiledau – Mesuron arian – Mater mewn llaw. D Owen is gysylltu a Mared eto.

6.3 Toiledau anabl – Nid yw'r drws yn cau heblaw ei fod yn cael ei wthio. Clerc i gysylltu ac Andrew Russ, Cyngor Sir Gar am gyngor a gofyn iddo phan roedden nhw yn rheoli'r toiledau, pwy roedden nhw yn ddefnyddio i wneud yr atgyweiriadau.

6.4 Tyrau Heol Gwrdy – Derbynwyd Ebost wrth A B Jones. Mae wedi gofyn i gael y tyrau yn y pentref gael eu atgyweirio gan dar hotbox.

Tyrau mawr ar sgwar gwaelod hyd flaen Stor Dolgwm a'r gwesty Llew Du - Clerc i gysylltu a Mrs B Edwards a D Owen i ofyn i rheolwr stondin a'r Clerc i ofyn i L Fish.

6.5 – Poplars -Canghennau wedi cwympo – Pawb i edrych erbyn ein cyfarfod nesaf.

6.5 - 6/25 – Gweithiwr defnyddiol – I'w adael ar ein cofnodion.

7.1 Miwral – I'w drafod yn ein cyfarfod 9/25.

10.3 6/25 - Laptop y Clerc – Cafodd y Clerc sgwrs dda gan bccIT a chael ateb i'w chwestinau i gyd. Mi benderfynodd y Clerc, ar ol siarad a'r Cynghorwyr, mae'r cwmni lleol hyn byddai'r dewis gorau. Bydd y Clerc yn talu am y laptop yn fuan am y ddyfyniad bris o £1518.00 ac yn cynnwys TAW. Derbynwyd anfoneb o £613.56 wrth bccIT am gytundeb cefnogaeth bell ar safle (dim cynnwys partiau). Talwyd y cyfanswm anfonebau o £2131.56.

## 6. MATERION NEWYDD LLANYBYDDER

6.1 Trafodwyd dyfodol y pel droed a'r hoci – Bydd rhaid trafod y mater hyn eto.

6.2 Clawdd wedi tyfu gormod ar y brifffordd – Llwyncelyn – Rhaid trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

6.3 Caniatad i ddefnyddio'r parc - Derbynwyd Ebost wrth Angharad Lewis, Clwb Rygbi yn gofyn am ganiatad i ddefnyddio'r parc ar ddydd Sadwrn 16/08/25. Gadael y mater hyd 16/8/25. Derbynwyd ail Ebost wrth A Lewis yn dweud ei bod wedi cadw 2 portaloo erbyn yr 16/8/25. Clerc i gadarnhau ein bod yn rhoi caniatad.

6.4 Uwchraddio'r Cenotaff – Mae Paul Evans wedi cyflwyno cynnig i rhoi resin yn lle'r concrit yn y Cenotaff. Roedd wedi cael dyfynbris o £3280.24 wrth E & D Resin Cyf. Mae

ein Cyngor yn disgwyl ateb wrth Paul Evans oherwydd ei fod wedi paratoi cynnal noswaith o godi arian at y gwaith yma. Mae D Owen yn mynd i baratoi cyfarfod Tims ar yr 7/8/25 am 7yh. Os byddant yn brin o arian ar ol y noson hyn, hoffai Paul gael gwybod a bydd ein Cyngor ni yn mynd i fodloni talu'r gweddill y resin.

6. Tai newydd ym Mro Einon – Rydyn ar ddeall bod y tai yma i gyd wedi eu dyranu. Clerc i ddanfon Ebost i Gyngor Sir Gar a gofyn iddynt a oes rhai o'r tai yma wedi cael eu rhoi i rhywrai lleol yn Llanybydder. Clerc i ddweud wrthynt bod ein Cyngor ni yn gwybod fod 21 o dai arall yn mynd i gael eu hadeiladu gan Bro Myrddin. Gofynt hefyd iddynt beth yw yr meini prawf tai i breswylwyr gan fod ein Cyngor yn bryderus bod preswylwyr lleol wedi cael eu esgeuluso.

6.5 Cais arian Grant – Mae D Owen wedi gorffen llanw ffurflen gais am weliau llysiau codi ac ardal eistedd i 'r Ganolfan Gymunedol yr Hen Ysgol, Llanybydder a mae'r Clerc wedi arwyddo'r ffurflen ac ei danfon i Thomas Evans, Cynllunydd Cludiant, Adrannau Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Cyngor Sir Gar. Dim ond cymorthio y cais roedd Cyngor Cymuned Llanybydder yn i wneud a dim gorfod gwneud dim arall yn fwy.

6.6 Fandaliaeth yn y parc – Bu fandaliaeth yn y parc ar yr 15/7/25. Roedd paent gwyn wedi i'w chwythu ar y bin sbwriel comic. Cysylltodd y Clerc a'r Heddlu ar unwaith. Hwyrach yn y dydd mi ffoniodd PC Awen y Clerc i ddweud fod y paent gwyn wedi diflannu achos y glaw. Roedd yn amlwg bod y fandalwyr wedi defnyddio paent wedi'i seilio a dwr.

6.7 Western Power – Golau Nadolig – Clerc i ofyn i Western Power i baratoi'r trydan i'r golau Nadolig erbyn 1/11/25.

6.8 Ceisio batris defib – Mae N Morris yn mynd i'w prynu.

6.9 Archwiliad Parc – Derbynwyd Archwiliad Parc a mae'r Clerc i ynd a'r papurau i T Evans er mwyn iddo edrych ar dudalenau 14 – 19 a gofyn iddo gadarnhau ei ganfyddiadau i'n Cyngor ni.

## 7. MATERION RHYDCYMERAU

7.1 Tyfiant porfa Bro Merau – Ateb wrth Maria Evans yn dweud bydd yn ymweld ar ardal ar yr 7/8/25 ble bydd yn archwilo.

## 8. DEG TREF

8.2 Gardd a llwybyr synhwyraidd – Mae ffurflen gais wedi ei chyflwyno ynghlyn ar Ardd a

Llwybr Synhwyraidd. Mae Linda Morris yn mofyn cyfarfod ar y seit a bydd yn cael ei gadarnhau.

**9. HYFFORDDIANT CYNGHORWYR A'R CLERC**

Hyfforddiant Cod Ymarfer 10/7/25 – Nid oedd yn bosib i'r Clerc i wneud yr hyfforddiant yma yn diwedd, ond bydd yn gwneud trefniadau i'w wneud drwy ddull cofrestru. Bydd y Clerc yn paratoi adroddiad newydd ar ol ein cyfarfod 9/25.

**10. GOHEBIAETH**

10.1 Mrs Chalk – Biniau ailgylchu – Ebost wrth Mrs Chalk, Bro Einon yn dweud bod llawer o finiau ailgylchu yn ei maes parcio ym Mro Einon. Mae yn rhwystr i fobl barcio eu ceir. Mae swn gan y bobl pan maent yn dod a'u boteli etc and yn hwyr yn y nos. Clerc i gysylltu a Chyngor Sir Gar a gofyn iddynt i rhoi'r biniau yma yn ol yn y maes parcio yng ngwaelod y pentref.

10.2 Kimberly Rees – Ebost wrth K Rees. Roedd eisiau gwybod am gyfrifoldeb ynglyn a chynnal coed a chloddiau roedd ar y lluniau danfonodd i ni. Clerc i ateb K Rees a dweud fod dim llwyni na choed ar ein ochor ni o'r wal ffin. Clerc i gynghori hi i gysylltu a pherchennog Lowlands.

10.3 Banc NatWest – Derbynwyd lythyr wrth Banc NatWest yn rhoi cod gweithredu. Roedd y llythyr ar gyfer D Owen, Cyngor Cymuned Llanybydder, a chyfeiriad llawn y Clerc. Dywedodd D Owen yn ein cyfarfod nid oedd hi wedi gwneud unrhyw gysylltiad a'r banc o gwbl ynghlyn a'r Cyfrif Cyfredol y Cyngor. Y Clerc i ffonio Banc NatWest.

**11. CYNLLUNIO**

PL/09606 – Amrywiaeth o'r Amod 2 ar PL/06102 – (Newidiaeth i'r cynigiwyd estyniad i

gyfathrebu ystafell blanhigion a myndfa i lawr cegin lefel is) – Blaenplwyf House, Llanybydder SA40 9SD.

PL/09558 – I wella gweladwyedd beryglus o'r mynediad presennol, mewn diddordeb dirgelwch ffyrdd. Na fydd y mynediad presennol yn cael ei ledanu unrhyw ffordd – Clawdd Llwyn Bungalow, Llanybydder SA40 9QE.

Roedd dim gwrthwynebiad i'r 2 uchod.

K. [signature]

## 12. CYLLID

**Datganiadau Banc**

| | | | |
|---|---|---|---|
| NatWest | Cyfrif Cyfredol | 20/06/25 – 18/07/25 | £35,691.35 |
| NatWest | Cyfrif Cadwraeth Busnes | 18/04/25 18/07/25 | 4,586.55 |
| HSBC | Datganiad Banc Rhif 168 | 01/07/25 – 31/07/25 | 4,177.80 |

**TALIADAU**

Dim.

**GORCHMYNION SAFLE**

TALKTALK

21/05/25 Credyd - £18.27. Clerc i ofyn am y credyd.

BT

07/07/25 Anfoneb £45.15.

Derbynwyd Ebost wrth BT ei bod wedi danfon Smart Hub & Digital Voice Adaptor. Daeth Ebost arall i ddweud bod drwg ganddynt ond roedd rhaid ganslo ein archeb a gofynwyd i'r Clerc i ddanfon y pethau 'nol iddynt mewn pecyn di-dal. Mi gewn weld beth bydd yn digwydd.

**TALIADAU AR LEIN**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 09/07/25 | EDF | £236.30 | Trydan toiledau. |
| 24/07/25 | M Y Beynon | 1198.87 | Cyflog 7/25. |
| 24/07/25 | HMRC | 299.60 | Treth 7/25. |
| 31/07/25 | K Jones Anfoneb 7/25 | 465.18 | Clanhau y toiledau. |
| 31/07/25 | Archwilio Cymru | 735.00 | Ffi'r Archwilio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16/08/25 | Llanybydder School Fund | 250.00 | Rhodd. |

**TALIADAU I KEVIN JONES & TOMOS EVANS DIWEDD MIS AWST PHAN DERBYNNIR Y CLERC YR ANFONEBAU**

Trafodwyd a mi gafodd y mater i'w basio, pan fydd y Clerc yn derbyn yr anfonebau yma, bydd angen eu talu, oherwydd na ddylai Contractwyr aros 2 fis am eu taliadau.

**M Y BEYNON CYFLOG**

| | |
|---|---|
| Cyflog 7/25 | £1498.47 |
| Treth yn llai | 299.60 |
| Talwyd i'r Clerc | £1198.87 |

Derbynwyd ddatganiad wrth Un Llais Cymru ynglyn a'r Cynllun Tal Llywodraeth leol 2025/26. Bydd y cymhwysedd cyflog yn berthnasol o 01/04/25 to 31/3/26. Mae'r Cynghorau i galonogi i wdynio yr dyrchafiad tal cyn gynted a sydd bosib. Hoffai'r Clerc i gymeryd y 52 o wythnosau ar ddiwedd 31/03/26 mewn taliad unwaith.

**INCWM**

Dim.

**12. RHODDION**

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Llanybydder | £250.00 | S137. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion hyd yn hyn: | S137 | £1000.00 | S19 | £0.00 |

**COMISIWN ELUSENNAU**

Clerc i ychwanegu Mrs M Morris fel Rheithor.

**ACHWILIO CYMRU**

Mae'r Clerc wedi danfon y Cyfrifon Blynyddol 31/03/25 i Archwilio Cymru a'r holl bapurau perthnasol gan Royal Mail.

**ERYL JONES LTD – ADNEWYDDIAD YSWIRIANT DIGWYDDIADAU**

Derbynwyd Thystyriad Adnewyddardda a dogfennau i'w cadw'n saff.

**RHEOLIADAU ARIANNOL 2025**

Clerc i baratoi drafft cyn ein cyfarfod nesaf.

**GORCHYMYN SEFYDLOG**

Clerc i baratoi drafft cyn ein cyfarfod nesaf.

**CYMHELLION AELODAU**

Derbynwyd Tablen Trefniadau Blynyddol wrth Un Llais Cymru.

**14. AOB**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben 9.45yh.

BYDD Y CYFARFOD NESAF YN CAEL EI GYNNAL YN FESTRI CAPEL ABERDUAR

NOS FERCHER 1 HYDREF 2025 - 7.00yh.